Cyflymu Busnesau Cymru



CANLLAW SECTOR

# Uwch Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu

Busnes Cymru
Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cynnwys

Sut y gall technoleg helpu gweithgynhyrchwyr? . . . . . . . . . 4

Dechrau arni . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 6

Pa fanteision y gallwch chi eu disgwyl? . . . . . . . . . . . . . . . . 8

Awgrymiadau . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 10

Manylion cyswllt . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 12



# Llyfnach gyda cyflym iawn

Gyda dyfodiad band eang cyflym iawn, mae'n bosibl i fusnesau gweithgynhyrchu fod yn fwy arloesol a chydweithredol nag erioed o'r blaen.

Y canlyniad fydd busnes llawer mwy llyfn sy'n gallu cynhyrchu eitemau yn ôl y gofyn yn haws nag o'r blaen ac yn gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol ac yn awtomatig gyda'r gadwyn gyflenwi. Drwy ddileu fersiynau gwahanol o'r un data mae technolegau'r cwmwl yn gallu cael gwared ar ddyblygu a hyd yn oed ar wrthdaro gwybodaeth. Drwy gyfathrebu ar amrant gyda chyflenwyr gellir archebu cydrannau ar yr union adeg pan fydd y cleient pendraw eu hangen. Bydd rhai o'ch gweithlu'n gallu gweithio o bell ac efallai y byddwch eisiau ystyried allanoli rhai o dasgau'r ymylon heb darfu ar eich prif weithgareddau.

Mae'n dechrau gyda chysylltiad band eang cyflym iawn sy'n gynnig llawer o fanteision dros yr hen ffordd o weithio.

# Sut y gall technoleg helpu gweithgynhyrchwyr?

Mae band eang yn hanfodol i'r rhan fwyaf o ddiwydiannau ac nid yw gweithgynhyrchu'n eithriad. Ac mae'n gwella. Mae band eang cyflym iawn yn cynnig manteision enfawr i weithgynhyrchwyr. Yn syml iawn, mae cyflymder y cysylltiadau sy'n bosibl mewn un adeilad– sy'n cael ei alw'n Rhwydwaith Ardal Leol (LAN) fel arfer – ar gael erbyn hyn yn allanol, ai i'r Rhyngrwyd neu i safleoedd eraill.


Mae'r manteision ymarferol yn lliaws. Mae cwmnïau mwy yn gallu manteisio ar systemau cynllunio adnoddau mentrau yn y cwmwl sy'n cynnwys popeth ynghylch arian, deunyddiau a llawer iawn mwy. Mae hynny'n gweithio hefyd ar gyfer cynllunio adnoddau gweithgynhyrchu, fersiwn o gynllunio adnoddau mentrau sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddeunyddiau a chynnyrch y broses weithgynhyrchu.

Mae hefyd yn haws cydweithredu. Ystyriwch luniadau technegol. Gosodwch rywbeth ar dabled (efallai dim ond ffotograff a llun pin gyda dyfais clyfar) ac mae'n gallu bod ar y rhwydwaith i bawb ei rannu a gweithio arno ar unwaith.





CANLLAW SECTOR



Gallwch gwneud hyn yr un mor hawdd gyda gwmnïau sy'n cydweithio ag â'ch rhwydwaith mewnol. Gallwch rannu pob math o wybodaeth a ffeiliau gyda'ch cadwyn gyflenwi a'ch cwsmeriaid; mae pobl yn gallu cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar gynnyrch a darpariaeth eu hunain oherwydd mae'r holl broses yn dod yn un gyda thechnoleg glyfrach. Mae'n arbed oriau i staff ac yn cynyddu eu cynhyrchedd.

Ystyriwch hefyd y gwasanaethau hanfodol sy'n sail i'r prosesau gweithgynhyrchu. Cyfrifon, Adnoddau Dynol a'r rhestr gyflog, y gwaith marchnata. Does dim rhaid eu cynnal ar safle bellach. Yn y gorffennol, efallai bod angen eu cael wrth wrth law i siarad â datblygwyr cynnyrch neu i holi pobl ynghylch yr ochr ariannol. Gyda'r wybodaeth a'r delweddau diweddaraf ar gael bob amser trwy gysylltiad band eang cyflym iawn, gall y bobl proffesiynol sy'n gwneud y gwaith hynny weithio o unrhyw le. Mae hynny wedi arwain at rai gwmnïau'n allanoli i arbenigwr, sy'n gallu mynd i'w systemau a gweithio fel rhan o'ch busnes yn hytrach nag fel cyflenwr.

# Dechrau arni

Mae nifer o dechnolegau ar gael i hwyluso busnesau ar daith band eang cyflym iawn. Maen nhw'n cynnwys:

- **Rheoli dogfennau**
  Bydd eich logisteg yn cyflymu wrth i bob doced ac archeb gael eu trin yn electronig. Byddwch yn gallu llofnodi archebion a derbynebau'n electronig a chael gafael arnyn nhw'n hawdd trwy dechnoleg chwilio. Gallwch dderbyn ac anfon archebion yn awtomatig wrth i anfonebau a docedi fynd i'r system a'r gadwyn gyflenwi'n awtomatig ac ar unwaith, hyd yn oed os yw'r partneriaid mewn gwlad arall.

- **Cynllunio Adnoddau Menter**
  Yn yr adran uchod, roedd Cynllunio Adnoddau Menter (ERP) yn cael ei drafod. Mae mwy a mwy yn defnyddio trydydd parti i'w gadw yn y cwmwl. Mae gweithredu a chynnal systemau fel hyn yn waith arbenigol – felly unwaith y bydd yn y cwmwl yn hytrach nag ar safle, mae ar gael yn barhaus trwy gysylltiad cyflym iawn ac mae busnes yn gallu ystyried cael arbenigwr i ofalu amdano tra bo adnoddau'n cael eu defnyddio ar dasgau craidd y busnes.

- **Gweithio'n symudol**
  Mae gan bawb bron, erbyn hyn, ddyfeisiadau clyfar ac mae cysylltiadau Rhyngrwyd yn eang iawn. Os yw seilwaith cwmni'n gyflym iawn yna mae'i staff yn gallu mynd i mewn i lawer o'i systemau o bell. Mae hynny'n agor dau lwybr ar unwaith: efallai bydd staff eisiau gweithio o gartref os ydynt mewn ardaloedd cefnogi, neu, efallai, weithio yn y maes. Pan fydd staff gwerthu yn mynd allan a chymryd archebion bydd yr wybodaeth ar gael mewn amser real ar eu systemau ar unwaith a gellir archebu'r cydrannau a dechrau'r broses gweithgynhyrchu cyn bod y staff gwerthu yn ôl yn eu ceir.



- **Arloesedd**
  Mae cyfathrebu'n bwysig i arloesi a gellir cyfathrebu ar amrant ar draws cysylltiad cyflym. Drwy rannu dogfennau a rhannu sgrin gellir rhannu dyluniad neu daenlen i bawb yr un pryd drwy gynadledda Protocol Llais Dros y Rhyngrwyd a thrafod trwy llais, fideo neu neges destun. Gall hynny arwain at lai o gyfarfodydd hir yn ogystal â chwtogi ar amser teithio a chostau.

# Pa fanteision y gallwch chi eu disgwyl?



Drwy fabwysiadu'r dechnoleg hon, cyn belled â'i bod yn cael ei defnyddio'n ddoeth ac yn dda, gall busnes ennill awch cystadleuol gwirioneddol. Daw hynny mewn sawl ffurf:

- **Wrth i chi awtomeiddio** a rhoi mwy o elfennau'ch busnes yn y cwmwl, bydd eich costau'n gostwng. Bydd peidio a phrynu pecynnau o feddalwedd, neu seilwaith, ond talu amdanyn nhw "fel Gwasanaeth" yn tynnu'r pwysau oddi ar eich gwariant cyfalaf ac ni fydd raid i chi wario ond ar yr hyn rydych yn ei ddefnyddio a bydd hynny'n wariant refeniw. Mae staff ariannol yn tueddu i hoffi hyn. Mae hyn hefyd yr un mor wir ynghylch cynhyrchedd swyddfa ag yw ynghylch meddalwedd gweithgynhyrchu penodol.

- **Mae cadwyn gyflenwi symlach** sy'n gallu archebu ar unwaith yn un effeithlon. Bydd y cynnyrch ar gael yn gyflymach ac ynghynt a bydd llai o arian yn cael ei wario ar storio nwyddau. Mae rhai gweithgynhyrchwyr wedi mynd mor bell â chyfeirio at 'weithgynhyrchu rhithwir' gyda'r holl adnoddau a'r bobl angenrheidiol yn cael eu cynnull yn y cwmwl.







- **Bydd gwybodaeth ynghylch prosesau ariannol a gweithgynhyrchu** ar gael ar bob dyfais y mae busnes yn dewis ei ddefnyddio - ffôn, tablet, gliniadur - gyda'r cysylltiad, apiau ac wrth gwrs y lefelau diogeledd cywir. Mae hynny'n chwyldroi adrodd yn ôl a gellir cael llawer mwy o gefnogaeth cipolwg wrth benderfynu yn seiliedig ar wybodaeth hollol gyfredol yn hytrach nag ar ddata a allai fod yn ddyddiau oed.

# Awgrymiadau


**Manteisiwch i'r eithaf** ar yr wybodaeth fusnes sydd ar gael ynghylch cysylltiad cyflym iawn. Bydd y meddalwedd cywir yn gallu ei ddadansoddi ac yn rhoi syniad da iawn i chi ynghylch beth yn union sy'n mynd ymlaen yn eich proses gweithgynhyrchu a sut mae'n berthnasol i'ch cadwyn gyflenwi.

**Cadwch lygad ar yr holl gostau –** bydd gwahanol ddarparwyr gwasanaeth â gwahanol gynigion ac mae'n bwysig eich bod yn deall yn iawn beth sy'n cael ei gynnwys. A oes cyfyngiadau a nenfydau ar y data y gallwch ei ddefnyddio?

**Gwnewch yn siŵr fod eich cydweithwyr yn gallu cysylltu –** mae'n wir y bydd band eang cyflym iawn yn gallu adfer yr holl ddata ac apiau o bell, fel yr ydym wedi sôn mewn mannau eraill, ond os yw'ch gweithwyr mewn ardal gyda derbyniad gwael ac yn methu â chael signal 4G neu 3G (ac yn methu â chyrraedd man poeth WiFi), gallai hynny fod problem. Dylech ganfod ble maen nhw a chynllunio ar gyfer hynny.








**Gwnewch yn siŵr fod yr holl** offer rhwydweithio mewnol yn gweithio'n iawn ac wedi'i ddiweddaru. Does dim yn fwy rhwystredig na chael peiriannydd yn dweud fod y band eang sy'n dod i mewn ymysg y cyflymaf sydd ar gael ond fod offer mewnol, hen, yn cario data fel yr oedd 20 mlynedd yn ôl.

**Os ydych yn mynd i ddefnyddio darparydd cwmwl,** gofynnwch y cwestiynau anodd: A yw'r contract yn cynnwys diweddaru meddalwedd, diogeledd, cadw wrth gefn? Os nac yw, ewch i siopa o gwmpas ar bob cyfrif!

# Cyflymu Busnesau Cymru

I ategu'r broses o gyflwyno band eang cyflym iawn ledled Cymru, gallwch gael cyngor ar beth allwch ei wneud unwaith y bydd ar gael i chi, a beth allwch ei wneud yn y cyfamser, i sicrhau bod eich busnes yn cael y mwyaf o fand eang cyflym iawn.

- Tyfu eich busnes
- Cynyddu effeithlonrwydd
- Cynyddu elw
- Hybu cynhyrchiant
- Gostwng eich costau

Am ragor o wybodaeth ac i lwytho i lawr eich Canllawiau 'Sut i...' YN RHAD AC AM DDIM, ewch i:

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy

Ffôn: 03000 6 03000

Cadwch yn gyfredol – dilynwch ni ar:

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government